

**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**

**Cadeirydd: Gerallt Jones**

Nos Fercher Mehefin 24ain 2020 am 8.00 y.h.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom o ganlyniad i'r Covid-19

**Cofnodion**

1. **Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Sirol Garffild Lewis
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddi-ddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mawrth:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER gyda GR yn eilio
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Dim
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1 CBSC – derbyniwyd y taliad cyntaf o'r Presept £1,400.00
7. **Derbyn Mantolen Ariannol 2019/20:**
  - a) Datganiad Llywodraethu Blyneddol (rhan 1 a 2) cynigiodd DE gyda GR yn eilio a phawb yn cytuno bod pwyntiau 1-8 ac 1-2 wedi eu cwblhau.
  - b) Datganiadau Cyfrifyddu 2019/20 archwiliwyd y fantolen yn fanwl gydag ER yn cynnig a GBJ yn eilio yna cytunwyd pawb fod y fantolen yn gywir a chyflawn.
8. **Talu Anfonebau:**
  - 8.1. Hill & Roberts - cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o £110.00 + TAW £22.00 = **£132.00** gyda siec rhif **100340**. S151
  - 8.2. Iona Edwards – cynigiodd GR gydag ER yn eilio talu'r anfoneb i'r archwilydd mewnol £50.00 + TAW £10.00 = **£60.00** gyda siec rhif **100341**. S151
  - 8.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Ragfyr i Fawrth cynigiodd GBJ gyda GR talu'r **£88.21** gyda siec rhif **100342**. S150
9. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
10. **Unrhyw fater arall:**
  - 10.1. Anfonwyd gair o ddiolch i Paul Weston am ei wasanaeth ar y Cyngor Cymuned ac i'r ardal fel Cynghorydd ers y 90degau cynnar a dymunwyd y gorau iddo yn ei gartref newydd.
11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf clerch i drefnu**

Arwyddwyd \_\_\_\_\_  
Cadeirydd

Dyddiad 07.09.2020

